



Ychydig o bobl sy'n sylweddoli pa mor bwysig yw ystlumod, nid yn unig i greaduriaid eraill, ond hefyd i ni'n hunain. Fel pob mamal arall, llaeth yw eu bwyd cyntaf ar ôl geni, pan fydd eu mam yn rhoi sugn iddyn nhw. Ond ar ôl diddychu mae amrywiaeth diet ystlumod bron mor eang ag unrhyw beth a geir ymhlith yr holl famaliaid, ac mae beth maen nhw'n ei fwyta a sut maen nhw'n ei fwyta yn cael effaith aruthrol ar bob un ohonon ni.

Ystlumod fel rheolwyr pryfed

Mae tua 70% o'r holl rywogaethau ystlumod yn bwyta pryfed, yn union fel holl ystlumod Prydain. Er bod y rhan fwyaf o bryfed yn ddefnyddiol, mewn llawer rhan o'r byd mae rhai yn blâu amaethyddol difrifol i gnydau, ond tan yn ddiweddar roedd rôl ystlumod fel rheolwyr plâu yn cael ei danbriso.

Reis yw bwyd sefydlog bron hanner poblogaeth y byd, felly mae ffyrdd cynaliadwy o gynhyrchu reis yn hanfodol ar gyfer diogelwch bwyd ar lefel byd-eang. Mae cnwd reis y byd yn dioddef ymosodiadau gan fwy na 800 rhywogaeth o bryfed, ac yn y rhanbarthau lle mae'r rhan fwyaf o gynhyrchiant reis wedi'i grynhoi, mae pryder ynghylch gorddedfndio pleiddiaid. Yn Sbaen profwyd bod ystlumod bach meinlais yn rheoli plâu o wyfnod tyllu reis yn ystod o leiaf dau o gyfnodau gweithgarwch brig y gwyfyn, pryd y gwneir y rhan fwyaf o'r difrod. Yng Ngwlad Tai

dangosodd ymchwilwyr oedd yn chwilio am ddull effeithiol o reoli'r sbonciwr planhigion cefnwyn, un o'r plâu reis, sut byddai dirywiad ym mhoblogaethau ystlumod yn effeithio ar ddiogelwch bwyd pobl leol, ac awgrymwyd y dylai ffermwyr reis sefydlu blychau clwydo i ystlumod.

Mae yd (india-corn) yn gnwd hanfodol i lawer o ffermwyr, ac yn cael ei dyfu ar fwy na 150 miliwn o hectarau ar draws y byd.

Amcangyfrifir bod 100 miliwn o ystlumod cynffonrydd Mecciso yn clwydo yn ogof Bracken yn ardal ddeheuol canolbarth Texas, ac mae profion DNA wedi cadarnhau eu bod yn bwyta gwyfyn lindysyn yr yd yn rheolaidd yn ystod rhan gynnar y tymor tyfiant. Gallant fwyta pedwar biliwn o wyfnod lindysyn yr yd mewn noson, sy'n golygu bod angen defnyddio pleiddiaid unwaith neu ddwy yn llai aml bob blwyddyn. Ers rhai blynyddoedd

mae ffermwyr America wedi bod yn denu ystlumod i'w tir, gan osod safleoedd clwydo artiffisial fel blychau ystlumod, i'w hannog. Enw arall ar lindysyn yr yd yw'r gwyfyn cotwm, gan ei fod yn gwneud difrod aruthrol yn y caeau cotwm os na chaiff ei rwystro. Felly mae'r ystlumod cynffonrydd hefyd yn helpu'r diwydiant tyfu cotwm.

Yn dibynnu ar y rhywogaeth, gall ystlumod sy'n effro yn ystod y nos lowcio o hanner hyd at ddau draean o bwysau eu corff mewn pryfed bob nos. Yn yr Alentejo, rhanbarth cynhyrchu gwin i'r de-ddwyrain o Lisbon, gosododd ffermwyr 20 o flychau ystlumod pren ymhlith y rhesi o rawnwin. Mae'r rhain wedi deni ystlumod bach Kuhl ac ystlumod Leisler, a bu gostyngiad yn nifer y pryfed ar yr ystâd. Mae'r ystlumod wedi llwyddo i gymryd lle'r cemegion pwerus oedd yn aml yn cael eu defnyddio i gael gwared o blâu, ac yn gwneud hynny'n ddibynadwy.

Mae tyfwyr yn darganfod gwerth ystlumod fel rheolwyr plâu ar gyfer cnydau eraill hefyd, gan gynnwys perllanau Macadamia yn Ne Affrica, cacao (sef ffynhonnell coco) yn ne-ddwyrain Asia, coed cnau Ffrengig a pherllannau pecan yn ne'r Unol Daleithiau. Po leiaf o blaeiddiaid byddwn ni'n eu defnyddio ar gnydau, lleiaf fydd yn mynd i'n cyrff wrth fwyta.


Mae ystlumod ymhlith ffrindiau gorau ffermwyr organig, gan fod denu ystlumod yn gallu gwneud gwahaniaeth pwysig i ffermwyr sydd am ddefnyddio ffyrdd naturiol, biolegol o reoli pryfed.

Mae ymchwil ar ystlumod yn helpu mewn ffyrdd eraill hefyd, wedi arwain at ddatblygu cyffwr gwrthgeulo ar gyfer pobl sy'n wynebu risg uchel o dolchenni neu strôc.

Ysbrydolwyd datblygiad sonar ar gyfer llongau ac uwch-sain yn'n rhannol gan y system ecoleoliad y mae ystlumod yn ei defnyddio.


Gallai ymchwil sy'n parhau ar strwythur adenydd ystlumod a mecaneg hedfan ystlumod arwain yn y pen draw at ddatblygu technolegau sy'n gwella gallu awyrennau i symud o gwmpas. Mae ymchwilwyr yn ceisio darganfod y gennyn sy'n galluogi rhai ystlumod i fyw ar gyfartaledd bedair gwaith yn hwy na mamaliaid brychol eraill tebyg eu maint, a pharhau'n actif.

Chwiliwch ar y we i ddysgu mwy am y gwaith ymchwil rydyn ni'n cyfeirio ato yma. Ble arall mae ystlumod yn helpu ffermwyr?



Blychau ystlumod wedi'u codi mewn gwinllan yn Surrey, y Deyrnas Unedig.

Miloedd o ystlumod gwefus-grychog yn llifo allan o'u safle clwydo yng Ngwlad Tai.





Mae angen ystlumod ar fforestydd trofannol

Er bod y rhan fwyaf o ystlumod yn bwydo ar bryfed, mae bron chwarter rhywogaethau ystlumod y byd yn bwydo ar blanhigion yn yr ardaloedd trofannol ac is-drofannol, ac mae llawer o'n planhigion cynydau mwyaf gwerthfawr yn dibynnu ar ystlumod: ffrwythau afocado, pren balsa, ffrwyth bara, cnau cashiw, cnau carob, clofau, datys, ffigys, coed mango ac eirin gwlanog, i enwi rhai yn unig. Gwyddom fod dros 450 o rywogaethau planhigion sy'n arwyddocaol yn economaidd yn dibynnu'n rhannol neu'n llwyr ar ystlumod am beillio neu wasgaru hadau.



Mae barringtonia yn flodeuyn ystlumod nodweddiadol, sy'n blodeuo yn y nos yn unig.

Mae ystlumod yn gwasgaru hadau

Mae ystlumod sy'n bwyta ffrwythau – ffrwyth-fwtawyr – yn hanfodol i ledaenu hadau mewn fforestydd trofannol ar draws y byd, gan eu bod yn bwyta ffrwythau ymhell dros 700 o rywogaethau o blanhigion, ac felly'n golygu bod modd gwasgaru hadau yn bell. Fwy na thebyg rydych chi wedi gweld ffigys yn yr archfarchnad, yn arbennig adeg y Nadolig. Mae dros 750 o wahanol fathau o ffigys gwyllt, a nhw yw un o'r bwydydd pwysicaf ar gyfer anifeiliaid y goedwig law, yn ogystal â bod yn hoff fwyd i lawer o ystlumod. Mae pob ffigysen yn cynnwys cannoedd o hadau, weithiau cynifer â 2,000 mewn un ffrwyth, ac mae'r ystlum yn bwyta'r ffrwyth yn gyfan, gan gynnwys yr hadau. Wrth hedfan, mae'n gwasgaru hadau sydd heb eu treulio yn ei faw. Mae llawer o'r coed hyn yn bwysig nid yn unig fel bwyd, ond hefyd ar gyfer moddion a gwin; mae'r pren yn cael ei ddefnyddio i adeiladu cychod a thai, ac mae'r ffibrau'n cael eu troi'n gortyn a rhaffau.

Ystlumod fel peillwyr

Mae gan flodau ffyrdd arbennig o ddenu ystlumod. Maen nhw'n aml yn welw er mwyn cael eu gweld yn y tywyllwch, maent fel arfer yn tyfu ar ben y canghennau, fel bod ystlumod yn gallu bwydo'n hwylus, ac efallai na fyddant yn agor ond yn y nos. Mae rhai yn cynhyrchu llawer mwy o baill a neithdar yn y nos nag yn y dydd, a gall fod ganddynt arogl cryf iawn. Yn gyfnewid am y paill a'r neithdar, mae'r ystlumod yn helpu'r planhigion trwy drosglwyddo gronynnau paill sy'n glynu wrth eu blew i'r blodyn nesaf y byddant yn ymweld ag ef ar eu taith, gan beillio hwnnw.

Y goeden calabash

Un o'r coed cyntaf i gael ei hadnabod fel coeden yr oedd ystlumod yn ymweld â hi oedd y goeden calabash, sy'n tyfu ar draws Canolbarth America a Mecsico. Mae'r blodau melynwyrrd yn agor gyda'r hwyr ac mae ystlumod pitw sy'n bwyta neithdar ac ystlumod mwy sy'n bwyta ffrwythau yn dod i ymweld â nhw, yn ogystal â gwyfynod a phryfed, yn chwilio am neithdar ym mhob blodyn. Ar ôl peillio, mae ffrwyth mawr crwn prenaidd yn datblygu. Nid yw'n dda i'w fwyta, ond mae'r tu allan yn troi'n galed iawn o'i sychu, ac yn cael ei droi'n cwpanau a phowlenni, neu'n cael ei gerfio a'i werthu i dwristiaid.



Gowrdiau (ffrwyth y goeden calabash)



Coed Mango

Coed Mango

Y mango yw un o ffrwythau trofannol pwysicaf y byd. Mae'n cael ei dyfu mewn llawer o wledydd, a hyd yn oed mewn mannau lle mae wedi cael ei gyflwyno, mae llawer o ystlumod yn ymweld â'r blodau i gael neithdar a phail, ac felly'n helpu i'w peillio. Mae'r ffrwyth yn hongian o'r goeden ar goesyn hir. Un garreg fawr fflat sydd y tu mewn, ond mae rhai ystlumod mawr yn cario'r ffrwyth o'r goeden i'w fwyta, fel bod coed newydd yn cael eu plannu mewn mannau eraill.

Mangrofau

Mae mangrofau yn byw hanner ffordd rhwng y môr a'r tir ar lannau trofannol cysgodol. Mae eu systemau rhyfedd o wreiddiau yn eu galluogi i ymdopi â newidiadau'r llanw, ac atal pridd rhag cael ei olchi i ffordd gan y môr, sy'n amddiffyn y tir rhag llifogydd. Mae miliynau o greaduriaid yn byw ar gorstir mangrof – crancod, madfallod, pysgod, mwnciod a phryfed o bob math. Mae ystlumod ymhlith peillwyr rhai coed mangrof, oherwydd eu bod yn bwydo ar neithdar a phail blodau coed mangrof.



Mangrofau

Mae ystlumod yn hanfodol i adfywio'r goedwig law ar ôl ei thorri neu ei llosgi. Mae'r rhan fwyaf o'r planhigion cyntaf sy'n tyfu eto ar dir y tarfwyd arno, y 'coed arloesi', wedi cael eu gwasgaru gan ystlumod, gan alluogi'r coedwigoedd i dyfu eto.

Allwch chi gael hyd i wybodaeth am goed trofannol eraill mae ystlumod yn eu helpu?